

# Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Allweddol 2

## Gweithgaredd 8a: Sut allwn ni hysbysebu?

### Amcan Dysgu

Annog disgyblion i feddwl yn greadigol.

### Nodweddion Entrepreneuriaeth

#### Creadigedd

- Datrys problemau
- Arloesi
- Meddwl Dargyfeiriol – creu syniadau

### Gweithgareddau dysgu

Mae'r disgyblion yn casglu gwahanol fathau o hysbysebion o gylchgronau, posteri a phapurau newydd.

Gofynnwch y cwestiwn: “Beth yw'r gwahanol fathau/arddulliau?”

Mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn didoli'r hysbysebion yn categorïau e.e. addysgiadol, mynnu sylw, doniol.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod “Pa rai yw'r hysbysebion mwyaf effeithiol a pham?”

Mae'r disgyblion yn defnyddio TGCh neu/a deunyddiau celf i greu mathau gwahanol o hysbysebion mewn perthynas â'u menter e.e.

- poster ar gyfer hysbysfyrddau • dalen i'w rhoi i rieni
- hysbyseb papur newydd • label “pris arbennig” ar gyfer cynhyrchion.

Mae'r disgyblion yn gwerthuso eu hysbysebion (gan ddefnyddio rhestr wirio ‘Creu Hysbyseb’ Gweithgaredd 8) a thrafod ffyrdd o'u gwella. Maen nhw'n penderfynu pa ddyluniadau a fformatau byddan nhw'n eu defnyddio i hyrwyddo eu prosiect menter nhw.

Mae'r disgyblion yn gweithio mewn grwpiau i baratoi taflenni a / neu bosteri i hyrwyddo eu prosiect menter.

Mae'r disgyblion yn paratoi am lansio a marchnata eu cynnyrch neu wasanaeth.

# Gweithgaredd 8a: Sut allwn ni hysbysebu?

## Cyfnod Allweddol 2

### Canlyniad dysgu

Mae'r disgyblion yn meddwl yn greadigol ac yn gwerthuso effeithiolrwydd eu gwaith.

### Adnoddau mae eu hangen

- Cylchgronau, posterï, papurau newydd sy'n dangos mathau gwahanol o hysbyseb e.e. addysgiadol, dal sylw, doniol
- Rhestr wirio 'Creu Hysbyseb' Gweithgaredd 8 • TGCh • Bwrdd gwyn rhyngweithiol

### Cysylltiadau â'r cwricwlwm

#### 1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

##### Llythrennedd

##### Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwranddo
- Cydweithredu a thrafod.

##### Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

##### Darllen ar draws y cwricwlwm

- Lleoli, dethol a defnyddio gwybodaeth.

#### 2. Celfyddyd

- Dylunio a gwneud delweddau dau ddimensiwn.

#### 3. Dylunio a thechnoleg

- Datblygu a chyfathrebu eu syniadau dylunio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio TGCh lle bo'n briodol.

#### 4. TGCh

- Creu a chyfathrebu gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau, gan ddefnyddio amrediad o galedwedd a meddalwedd TGCh.

